

Blémengé

by Heledd Bianchi

Wel, chi'n gwbod, roedd y faggots na'n ffein Sandra. Dwles i ar y pŷs 'na heddiw hefyd. O nhw'n lot mwy medal na ddoe. O nhw fel pellets gieir ddoe. O nhw'n greindan ar fy nannedd i Sandra. I ti'n wonderful Sandra, i ti'n gwbod ni? I ti'n werth y byd! Bownd bo ti di blino nawr Sandra. I ti'n gwd gêl. Duw, duw, beth mae honna moen 'to? Mae 'di bod yn connan nawr ers meityn. Eisiau chi streitno'u ffilos hi 'ma ddi. Dalwch sownd!, fydd hi 'da chi nawr. Mae 'di bod yn gweithio'u socs bant trwy'r dydd y ferch 'ma. Rhowch funud bach iddi. Mond un pâr o ddwylo s'genddi! Mm, blasus iawn Saandra. Be sy' i bwddin den? W, lyfli, crwmbwl mwyar duon a chwstard; y'n ffeifryn. Pwy sydd 'na nawr? Beth mae nhw moen 'to? Mae nhw 'di galw 'ma'n barod Sandra, troeon. Sandra!, Sandra!, w, ie, ie, chware tég, fel 'na ma fe chi'n gweld; fel na oedd hi a fel na fydd hi.

Naughty Boy Sydney. Gâd lapi fod. I ti wedi cael digon o minstrels nawr. Tro lapi nesa'. A! ti'n gwd boi lapi. R'hosa dy dyrn Sydney, dim gyrmmod nawr bois. Di ni ddim isie sbwylo eich din dins. O, ma 'da fi rhywbeth spesial i chi heddi. Ie, ie; tin o chicken Caesar, mmm, ium ium. Na chi neis. Reit, fydd eisiau i chi gael mint imperial nawr i ffreshno'ch dannedd chi. Visitors 'ma, Doris. Mae 'da chi visitors. Trowch hi lan Doris. Ie, mae'ch visitors, 'ma. Iawn i rhai, ondefe. Cael bach o gwmni. Be sy' 'da chi heddi Doris? Unrhywbeth neis? A, na chi lyfli. Turkish delight. W, cadwch un bach rose i fi gael nes 'mlaen os fyddwch chi mor garedig Doris? Na ni, na chi. Ie, ie, teulu ffein.

Duw, mae'n dwym 'ma. Mae'r heaters 'ma dros ben llestri. Mae nhw wir yn. 'Sdim ishe nhw nawr yn mis Gorffennaf, chi'n gweld. Mae nhw'n trial ein cwcan ni, ti'n gwbo?' Stwffio ni lan 'da bwyd hefyd er mwyn ein tewi ni, a streit mewn i'r ffwrn wedyn, a chynnal gwledd ar gyfer yr holl visitors ffein 'sy'n dod 'ma. Bydde rhaid i nhw seasono ni tipyn wrth gwrs achos symo ni di cael ffresh êr ers sbel!

Bernard, ble chi'n mynd nawr? Draw fynd 'ma'ch sedd chi. Chi'n mynd i grwydro 'to? Duw, duw, stopiwch eich shyfflan. Mae'n rhoi uffern o ben tost i mi. Os chi'n mynnu shyfflan ich trâd Bernard, yna tynnwch yr hen flip flops 'na off. Mae nhw lower rhy llac! Mae isie i chi gael pâr o mocasins fel sy' 'da fi. Chi'n gallu clymu nhw lan, chi'n gweld, yn reit dynn, fyd! Fydd Sandra nôl nawr Bernard. Ishtwch lawr. A!, tŷ bach chi am? Deith hi mewn munud. Weitwch ich tyrn. Hei! beth am i ni gyd gael sing song fach..... Sdim isie bod yn swil; dewch 'mlaen Vera. Ymunwch chithe mewn hefyd Judy.

O! chi off nawr, i chi? Neis i chi gael cadw llygaid ar Doris fach. Mae hi'n dechre stryglan nawr chi'n gwbo'

Sydney, lapi, cerwch nol i'r cornel 'na gwd bois. Mae Mami yn cadw llygaid barcud arno chi, ondw i? Ie, ie, mae Mami yn cadw llygad barcud arnoch chi!